RALI DATHLU'R GYMRAEG

Mudiadau Dathlu'r Gymraeg
Celebrating Our Language

11am, 23/02/08

ADEILAD Y SENEDD
BAE CAERDYDD

Owen John Thomas, Hywel James

Hywel Griffiths, Gwenno Teifi, Bethan Williams, Siwan Tomos

Cerddoriaeth, Stondinau, Cyfle i lofnodi mur Cefnogaeth i Ddeddf Iaith.

DEDDF IAITH GYFLAWN!

www.cymdeithas.org

Mae Cymdeithas yr Iaith yn falch i drefnu'r Rali Genedlaethol hon fel rhan o weithgaredd y Grŵp Ymbarél Mudiadau Dathlu'r Gymraeg dros Ddeddf Iaith Gyflawn i'r Gymraeg.

Mudiadau Dathlu'r Gymraeg
Celebrating Our Language

"Rydym ni'n falch o fod yn rhan o Fudiadau Dathlu'r Gymraeg, grŵp ymbarel sydd am ddathlu llwyddiant y Gymraeg ac sy'n galw am gyfres o fesurau cryfion newydd er mwyn sicrhau ei pharhad."

Mae Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Cymuned, Cyrndeithas yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas Alawon Gwerin, UMCB, UMCA, RHAG, UCAC, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Mudiad Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Mentrau Iaith Cymru yn rhan o Fudiadau Dathlu'r Gymraeg

Erbyn hyn, mae ein galwadau am weld deddfwriaeth newydd i'r Gymraeg wedi ennill cefnogaeth eang ymysg pobl Cymru ac ar draws y pleidiau gwleidyddol. Mae Rhodri Glyn Thomas, Gweinidog Treftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datgan ei fwriad i lunio Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol er mwyn cael pwerau deddfu dros y Gymraeg.

Dyma'r Cyfle! Ond dyw'r ymgyrch ddim drosodd. Y perygl yw y bydd rhai gwleidyddion yn ofn mentro ac yn dewis bodloni ar ddeddf iaith wan. Rhaid dal ati a gweithio gyda'n gilydd i sicrhau pwerau deddfu eang a mesur iaith gref fydd yn cynnwys;

Statws Swyddogol i'r Gymraeg

Hawliau i bawb yng Nghymru fedru defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol

Comisiynydd i'r Iaith Gymraeg

Mae'r drefn bresennol yn methu - dim hawl i addysg Gymraeg, diffyg gwasanaethau hanfodol fel iechyd a gofal trwy'r Gymraeg, a busnesau a chwmnïau preifat yn anwybyddu neu'n atal defnydd o'r Gymraeg. 'Dyw dibynnu ar gynlluniau iaith, ewyllys da, perswâd ddim wedi bod yn ddigon da o bell ffordd, ac ni fydd deddf iaith heb rym dros y sector breifat neu sydd ond yn ymestyn cynlluniau iaith, yn gwneud y gwahaniaeth angenrheidiol.

Mynnwn Ddeddf Iaith Gyflawn!
Cefnogwch yr ymgyrch! Dewch i'r Rali!

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Prif Swyddfa, Llawr Gwaelod, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ – 01970 624501 swyddfa@cymdeithas.org